# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial (Trwyddedau Brys) (Cymru) 2001**

## Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer rhoi trwyddedau brys yn ystod brigiadau o glwy'r traed a'r genau, gan awdurdodi'r trwyddedwr i wneud yr hyn a fyddai fel arfer yn cael ei wahardd gan Reoliadau Ffrwythloni Gwartheg yn Artiffisial (Iechyd Anifeiliaid) (Cymru a Lloegr) 1985.

Nid oes Arfarniad Rheoliadaol wedi'i baratoi ynghylch y Rheoliadau hyn.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud ar 24 Ebrill 2001 a dod i rym ar 25 Ebrill 2001.

Deellir bod darpariaeth debyg wedi'i gwneud ar gyfer Lloegr.

## Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

## Sylwadau Cyffredinol

## Testun uniaith

Tynnir sylw at y ffaith na chafodd y Rheoliadau hyn eu drafftio'n ddwyieithog. Dygwyd y mater hwn i sylw'r Gweinidog perthnasol mewn is-ddeddfwriaeth a grybwyllwyd o'r blaen a disgwylir ymateb o hyd.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

5 Mehefin 2001